

2015 Rhif (Cy.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Ffordd Gyswllt Tua'r Gogledd yng Nghyfnwidfa Coryton, Caerdydd) (Terfyn Cyflymder 40 mya) 2015

Gwnaed 11 Mehefin 2015

Yn dod i rym 15 Mehefin 2015

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Caerdydd – Llangurig (yr A470) (“y gefnffordd”), drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 84 (1) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrrdd 1984(1) ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu De Cymru, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 15 Mehefin 2015 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Ffordd Gyswllt Tua'r Gogledd yng Nghyfnwidfa Coryton) (Terfyn Cyflymder 40 mya) 2015.

Cyfyngiad

2. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd sy'n ffurfio ffordd gyswllt neilltuedig tua'r gogledd yr A470 yng nghyfnwidfa Coryton yn Ninas a Sir Caerdydd sy'n ymestyn o'i chyffordd â phrif gerbyttffordd gylchredol Cyfnwidfa Coryton hyd at ei chyffordd â phrif gerbyttffordd tua'r de yr A470.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru

Dyddiedig 11 Mehefin 2015

RICHARD MORGAN

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 84(2) gan Ddeddf Ffyrrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22), Atodlen 8, paragraff 61. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A470
(FFORDD GYSWLLT TUA'R GOGLEDD YNG
NGHYFNEWIDFA CORYTON, CAERDYDD)
(TERFYN CYFLYMDER 40 MYA) 2015**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 84(1) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a ddaw i rym ar 15 Mehefin 2015.

Effaith y Gorchymyn yw gosod terfyn cyflymder o 40 mya ar y darn o gefnffordd yr A470 sy'n ffurfio'r ffordd gyswllt neilltuedig tua'r gogledd yng nghyfnewidfa Coryton yn Ninas a Sir Caerdydd o'i chyffordd â phrif gerbyttfordd gylchredol Cyfnewidfa Coryton hyd at ei chyffordd â phrif gerbyttfordd tua'r de yr A470.

Yn ystod cyfnod o 6 wythnos o 12 Mehefin 2015, gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn, ynghyd â phlan, yn rhad ac am ddim, yn ystod oriau swyddfa arferol yn Llyfrgell yr Eglwys Newydd, Park Road, yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7XA neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1204723/1.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru (detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau Statudol Lleol/ Gorchymynion Traffig Parhaol/ 2015).

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A470
(FFORDD GYSWLLT TUA'R GOGLEDD YNG
NGHYFNEWIDFA CORYTON, CAERDYDD)
(TERFYN CYFLYMDER 40 MYA) 2015**

DATGANIAD O'R RHESYMAU

Mae angen y Gorchymyn er budd diogelwch ar y ffyrdd. Y terfyn cyflymder ar system gylchu Coryton ac ar y brif A470 yw 40 mya ar hyn o bryd ac mae angen i'r terfyn cyflymder ar y darn hwn o'r gefnffordd fod yn gyson â'r ffyrdd sy'n cyffinio â hi.